

24<sup>ain</sup> Ebrill 2014

**Annwyl Sir / Madam**

**Ymgynghoriad ar Ddatblygu fframwaith newydd ar gyfer mesurau technegol o dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin diwygiedig**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad y Comisiwn Ewropeaidd ar *Ddatblygu fframwaith newydd ar gyfer mesurau technegol o dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin diwygiedig*.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n gweithio fel rheoleiddiwr, partner a chynghorydd i fusnesau, cyrff anllywodraethol, awdurdodau lleol a chymunedau i helpu i roi polisiau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd ar waith. Rydym yn arddel dull rheoli ar lefel yr ecosystem i hyrwyddo gwaith integredig i reoli adnoddau naturiol sy'n dod â manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol i bobl Cymru.

Rydym yn cefnogi bwriad y Comisiwn i foderneiddio a rhesymoli'r mesurau technegol presennol yng nghyd-destun y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin diwygiedig, trwy ddatblygu fframwaith mesurau technegol.

Yng nghyd-destun yr ymgynghoriad hwn ac fel ymgynghorydd statudol i Lywodraeth Cymru ar gadwraeth natur, ein prif bryder yw'r goblygiadau i'r amgylchedd a chadwraeth natur a allai gael eu creu gan fframwaith newydd o fesurau technegol o dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin diwygiedig. Yn unol â Natura 2000 yr Undeb Ewropeaidd a deddfwriaeth Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, rydym yn annog y Comisiwn i fabwysiadu fframwaith mesurau technegol i'r Polisi sy'n rhoi ystyriaeth i'r effeithiau ar adnoddau morol ac ecosystemau morol.

**Cefndir**

Bydd rhoi fframwaith mesurau technegol ar waith yn offeryn allweddol i gynnal amcanion y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin diwygiedig. Bydd y fframwaith newydd hefyd yn cyfrannu at strategaeth Ewrop 2020 trwy symleiddio polisi pysgodfeydd yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r fframwaith yn bwriadu:

- Creu fframwaith rheoleiddio wedi'i symleiddio sy'n caniatáu am ddatganoli'r mesurau technegol i'r rhanbarthau.
- Lleihau ac osgoi dalfeydd diangen.

- Lleihau effeithiau offer pysgota ar ecosystemau.

## **Sylwadau Cyffredinol**

Yn sgil y newid i ddeddfwriaeth y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin i ddileu taflu pysgod yn ôl, cefnogwn fwriad y Comisiwn i symleiddio'r mesurau technegol presennol a'u gwneud yn benodol i ranbarthau trwy fframwaith mesurau technegol. Rydym hefyd yn cefnogi'r bwriad i leihau effeithiau offer pysgota ar ecosystemau trwy leihau nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu dal yn ddamweiniol sy'n perthyn i rywogaethau sydd mewn perygl, dan fygythiad neu a warchodir, a lleihau'r pwysau pysgota ar gynefinoedd sensitif.

Yn y gorffennol, pan roddwyd rheoliadau pysgota cyffredinol ar waith ledled dyfroedd yr Undeb Ewropeaidd, gellid cwestiynu a yw'r un dull i bawb wedi gweithio bob amser. Er enghraifft, mae canlyniadau anfwriadol i rai mesurau sy'n gallu arwain at waredu pysgod oherwydd rheoliadau neu broses dewis a dethol y pysgod gorau. Rhan o'r datrysiad ar gyfer lleihau dalfeydd diangen fyddai cyflwyno rheolau wedi'u symleiddio a mesurau technegol arloesol i wneud yr offer pysgota'n fwy detholus.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cydweithio â Llywodraeth Cymru i sicrhau y defnyddir Dull Ecosystem wrth reoli adnoddau naturiol Cymru. O ganlyniad, argymhellwn y dylai dull ecosystemau o reoli pysgodfeydd gael ei osod wrth wraidd y fframwaith. Dylai dull o'r fath annog gwell dealltwriaeth, asesiad a rheolaeth o effeithiau pysgota ar yr ecosystem forol. Mae hyn yn cynnwys yr effaith ar stociau pysgod, cynefinoedd benthig a rhywogaethau symudol. Argymhellwn hefyd fod fframwaith newydd ar gyfer y mesurau technegol yn cyfrannu at amcanion Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol sef sicrhau Statws Amgylcheddol Da yn ein moroedd erbyn 2020.

Rydym yn cydnabod bod mesurau technegol yn bwysig i leihau nifer yr anifeiliaid sy'n cael eu dal yn ddamweiniol sy'n perthyn i rywogaethau sensitif a'r effeithiau negyddol ar gynefinoedd sensitif a'r ecosystem yn gyffredinol. Rydym hefyd yn cytuno mai un o'r heriau allweddol fydd creu fframwaith i weithredu mesurau mewn ffordd sy'n gwarchod, yn y modd mwyaf effeithiol, y rhywogaethau sy'n wynebu'r perygl mwyaf ac ardaloedd sensitif y mae angen eu gwarchod. O ganlyniad, argymhellwn fod y fframwaith yn rhoi i'r aelod-wladwriaethau y broses a'r dulliau i asesu'r effeithiau mae offer pysgota a'r mesurau technegol yn eu cael ar ecosystemau morol.

Gallai mecanweithiau asesu o'r fath gynnwys y rhai a dreialwyd o dan y prosiect FishMap Môn. Bu'r prosiect, a gyflenwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar y cyd gyda chymuned bysgota gogledd Cymru, yn asesu sensitifrwydd cynefinoedd benthig i fathau o bysgota amrywiol o ran eu dwysedd. Gallai hyn ddarparu ffordd o ddefnyddio dull seiliedig ar risg i reoli effaith pysgota ar gynefinoedd sensitif. At hynny, yn ddiweddar mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyflawni gwaith i fapio sensitifrwydd adar môr a mamaliaid morol i bysgodfeydd Cymru a deall y

sensitifrwydd hwnnw'n well. Pe bai o gymorth, byddem yn croesawu'r cyfle i rannu cyngor a gwybodaeth am y meysydd gwaith hyn gyda'r Comisiwn Ewropeaidd.

Dolen i Brosiect FishMap Môn:

([http://naturalresourceswales.gov.uk/our-work/about-us/nrw-funded-projects/fishmap-mon/?lang=cy#.U6f\\_zZ1wZ9A](http://naturalresourceswales.gov.uk/our-work/about-us/nrw-funded-projects/fishmap-mon/?lang=cy#.U6f_zZ1wZ9A))


Dylai'r gwaith o ddatblygu fframwaith newydd ar gyfer mesurau technegol gydredeg â'r newid tuag at lywodraethu rhanbarthol fel y'i nodir yn y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin diwygiedig. Rydym yn cydnabod y bydd yn cymryd amser i weithredu'r newid o'r system lywodraethu bresennol i system o fesurau technegol rhanbarthol benodol. Fodd bynnag, rhaid i'r Undeb Ewropeaidd hybu a grymuso cydweithredu rhanbarthol effeithiol rhwng aelod-wladwriaethau. Dylai'r fframwaith mesurau technegol newydd nodi rhwymedigaeth aelod-wladwriaethau i gydweithredu mewn mesurau rhanbarthol benodol i reoli pysgodfeydd er mwyn sicrhau arferion pysgota cynaliadwy.

Hefyd rhaid i'r fframwaith ar gyfer mesurau technegol fod yn ddigon hyblyg i sicrhau y gellir addasu unrhyw fesurau'n unol â newidiadau i amgylchiadau mewn pysgodfeydd ar lefel ranbarthol. Dylid datblygu mesurau gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael ac os yw'n briodol dylid caniatáu astudiaethau prawf i fonitro eu heffeithiolrwydd. Rydym yn cynghori cynnwys proses adolygu yng nghynllun cyflawni pob mesur technegol i werthuso ei lwyddiant yn unol â nodau ac amcanion cytunedig.

Yn Atodiad un ceir adroddiad a gomisiynwyd yn ddiweddar gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar reoli rhanbarthol ym Môr Iwerddon o dan y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin newydd. Mae'r gwaith hwn yn cynnig diweddariad ar astudiaeth ddichonoldeb a gyflawnwyd gyda rhanddeiliaid yn 2002 cyn yr adolygiad blaenorol o'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin pan sefydlwyd Cyngorau Ymgynghorol Rhanbarthol.

Diolch unwaith eto am y cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad cwmpasu strategol hwn. Gobeithio y cewch y sylwadau hyn yn ddefnyddiol.

Yn gywir,



Ceri Davies

Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio

**I gael mwy o wybodaeth am ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru, cysylltwch â:  
Colin Charman, Cyngorydd Pysgodfeydd Morol CNC**

**01248 387288**

**Colin.charman@naturalresourceswales.gov.uk**